**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**Cam Gweithredu o CELG(4)-24-13: 26 Medi 2013**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 26 Medi 2013, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru ac Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru, fel rhan o'i ymchwiliad i lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon yng Nghymru.

Cytunodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru i ddarparu'i hadroddiad ar yr *Adolygiad Llywodraethu Pêl-droed Cymru*, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2013, ac a oedd yn cynnwys nifer fawr o argymhellion i foderneiddio strwythurau llywodraethu a gweithrediadau ym maes pêl-droed Cymru. Yn ogystal, cytunodd y Gymdeithas i ddarparu copi o *Making Wales' 3G Vision a Reality*.